



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Penodi Cadeirydd

Dyddiad Cau: 15 Mai 2018

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Cynnwys

Tudalen

Gwneud cais

Atodiad A: Rôl y Cadeirydd / Aelod

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Atodiad C: Y broses ddethol

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y broses penodi cadeirydd i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (y Grŵp Fframwaith). Bydd y cadeirydd newydd yn chwarae rôl ganolog fydd yn sicrhau bod cyswllt cydnabyddedig rhwng Llywodraeth Cymru, ceidwaid da byw, perchnogion anifeiliaid eraill a chynrychiolwyr y diwydiant, a'u bod yn trafod yr holl ystod o faterion yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid.

Mae'r Atodiadau yn rhoi manylion rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau'r Grŵp Fframwaith a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-9ed288514080/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu gwneud, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw'ch cyfle chi i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a manyleb y person. Er mwyn inni ystyried eich cais, bydd angen ichi roi, o dan bob pennawd, enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â'r meini prawf hanfodol, ac sy'n disgrifio'ch rhan chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Mae'n hanfodol darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf, a gallai bod yn fuddiol ichi ddangos sut y maent yn berthnasol i fanyleb y person.

Peidiwch ag ysgrifennu mwy na 300 o eiriau ar gyfer pob maen prawf hanfodol. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

Curriculum Vitae (CV)

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	15 Mai 2018
Llunio rhestr fer:	W/C 21 Mai 2018
Cyfweliadau:	6 Mehefin 2018

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais yn gyfle ichi nodi hefyd unrhyw anghenion neu offer penodol y bydd ei angen arnoch os cewch eich gwahodd i gyfweliad.

Cysylltiadau:

Am fwy o wybodaeth am rôl y Grŵp Fframwaith a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:

[Paul Critchley - Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol

Ffôn: 03000253593

E-bost: Paul.Critchley@llyw.cymru

Os oes angen mwy o gymorth arnoch wrth ichi wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru / 03000 255454.

Penodi Cadeirydd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Disgrifiad o'r Rôl

- Bydd y Cadeirydd yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Milfeddygol i weithredu *Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru*;
- Gweithio gyda'r Grŵp Fframwaith a swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cael eu hystyried wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd;
- Sicrhau bod lles da byw ac anifeiliaid anwes yn ganolog i drafodaethau'r Grŵp;
- Sicrhau bod y Grŵp Fframwaith yn cytuno ar flaenoriaethau o ran lles a chlefydau a bod amcanion ymarferol, realistig yn cael eu pennu a'u hadolygu'n flynyddol;
- Sicrhau bod y gwaith ar y blaenoriaethau o ran clefydau yn cael ei weithredu gan sefydliadau unigol yn ogystal ag ar y cyd â'r Grŵp Fframwaith;
- Helpu'r Grŵp Fframwaith i sefydlu a chynnal cysylltiadau priodol â rhanddeiliaid ledled Cymru a Phrydain Fawr, gan gynnwys Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr;
- Sicrhau bod y Grŵp Fframwaith yn gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Sicrhau bod y Grŵp Fframwaith yn darparu arweiniad strategol ac yn herio'r diwydiant yn effeithiol;
- Sicrhau bod y Grŵp Fframwaith yn canolbwyntio ar weledigaeth gyffredin, a'i rhannu, er mwyn bodloni blaenoriaethau ac amcanion y Grŵp;
- Cynrychioli'r Grŵp Fframwaith mewn digwyddiadau a chyfarfodydd priodol;
- Cynrychioli barn y Grŵp Fframwaith i Weinidogion Cymru;
- Sicrhau bod materion allweddol a phriodol yn cael eu trafod gan y Grŵp Fframwaith yn amserol ac yn effeithiol;
- Annog aelodau o'r Grŵp Fframwaith i hyrwyddo a dylanwadu ar safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid ledled Cymru gyfan;
- Cytuno ar agendâu cyfarfodydd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru a'r Grŵp Fframwaith;
- Cymeradwyo cofnodion y Grŵp Fframwaith;
- Galluogi pob aelod i gyfrannu'n llawn at waith y Grŵp Fframwaith a sicrhau bod y Grŵp yn gweithio fel tîm;
- Gwella proffil y Grŵp Fframwaith a'r gwaith sy'n cael ei wneud o dan yr agenda proffil uchel hon, gan wneud hynny'n effeithiol ac yn gyhoeddus;

Manyleb y person

Bydd gan y Cadeirydd y rhinweddau a'r sgiliau a ganlyn:

- Sgiliau arweinyddiaeth effeithiol sy'n annog ymrwymiad, bwrlwm, arloesedd a hyblygrwydd gan aelodau'r Grŵp Fframwaith;
- Ymrwymiad i fynd ati'n barhaus i wella iechyd a lles anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes yng Nghymru;
- Y gallu i feddwl yn arloesol, i herio mewn ffordd adeiladol yn ôl yr angen ac i gefnogi diwylliant o newid;

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

- Dealltwriaeth o Agenda ehangach Iechyd a Lles Anifeiliaid yng Nghymru; Dealltwriaeth o'r diwydiant da byw a'r sector anifeiliaid anwes;
- Sgiliau dylanwadu a chyfathrebu gwyb, gan gynnwys y gallu i ennyn hyder a meithrin perthnasau ledled y wlad;
- Y gallu i fod yn llysgennad dros y Grŵp Fframwaith; cydweithio â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Gweinidogion, y diwydiant, ffermwyr a sefydliadau trydydd sector;
- Y gallu i weithio'n dda fel rhan o dîm.

Meini Prawf Hanfodol

- Uniondeb a chadernid personol, y gallu i ddangos eich bod yn besron annibynnol ac yn meddu agweddau eraill sy'n gyson â disgwyliadau rôl sy'n ymwneud â'r cyhoedd;
- Y gallu i ddatblygu gweledigaeth strategol glir ar draws diwydiant amlweddol;
- Y gallu i hybu arloesedd ac i gyflawni newid diwylliannol a dealltwriaeth o sut y mae sefydliadau'n ymateb ac yn newid wrth i'r amgylchedd newid;
- Profiad sylweddol o gadeirio cyfarfodydd a digwyddiadau.

Yr Iaith Gymraeg

- Nid yw'n hanfodol.

Prif fanylion y swydd

Telerau'r Penodiad

- Gwneir penodiadau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar ran Llywodraeth Cymru.

Hyd y Penodiad

- Bydd y penodiad yn para am dair blynedd.

Dyddiad Dechrau

- 1 Mehefin 2018

Ymrwymiad Amser

- Bydd disgwyl i'r Cadeirydd ac aelodau'r Grŵp Fframwaith fynd i bedwar cyfarfod y flwyddyn. Dylid neilltuo diwrnod ar gyfer pob cyfarfod a diwrnod ychwanegol i baratoi cyn pob cyfarfod. Disgwylir y bydd hefyd ddiwrnodau eraill yn ôl y galw ac amcangyfrifir y gallai hyn olygu 12 diwrnod ychwanegol y flwyddyn. Felly, bydd rhaid ymrwymo oddeutu 20 diwrnod y flwyddyn i'r rôl.

Lleoliad y Cyfarfodydd

- Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Fframwaith yng Nghaerdydd fel arfer, fodd bynnag, gall fod achlysuron pan fydd yn ofynnol mynd i gyfarfodydd mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Tâl cydnabyddiaeth

- Rhoddir tâl cydnabyddiaeth o £114 y dydd am wneud y swydd a chaiff y tâl cydnabyddiaeth ei dalu fesul cyfarfod.
- Telir £114 y dydd i aelodau. Ystyrir aelodau yn ddeiliaid swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, bydd rhaid talu treth ar y taliad o dan Adran 62 o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 a bydd yn rhaid talu cyfraniadau Dosbarth 1 Yswiriant Gwladol. Tynnir y symiau hyn drwy system gyflogres Llywodraeth Cymru a thelir y ffi net i ddeiliad y swydd.

Treuliau

- Ad-delir unrhyw dreuliau teithio a chynhaliaeth a ysgwyddir wrth fynd i gyfarfodydd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru neu wrth fynd ar ymweliadau ar ran Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, gan Lywodraeth Cymru o fewn y terfynau cydnabyddedig. Dylid hawlio ad-daliadau drwy'r Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru.

Pwy sy'n Gymwys

- Dylai'r ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd bob amser. Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod i'r amlwg ar ôl eu penodi.
- Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod bod yn aelod o Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn swydd sy'n eich anghymhwyso rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.
<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro buddiannau

- Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.
- Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

- Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yn:
<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Cefndir

Sefydlwyd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu **Cyrraedd Safonau Uchel gyda'n Gilydd - Fframwaith ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid yng Nghymru**. Fel rhan o'r rôl ganolog hon, bydd y Grŵp yn sicrhau bod cyswllt cydnabyddedig rhwng Llywodraeth Cymru, ceidwaid da byw, perchnogion anifeiliaid eraill a chynrychiolwyr y diwydiant, a'u bod yn trafod yr holl ystod o faterion yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid.

Mae Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn disgrifio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i sicrhau gwelliannau cyson a pharhaol i safonau iechyd a lles anifeiliaid cadw, ac ar yr un pryd, mae'n ein helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac yn cyfrannu at yr economi a'r amgylchedd.

Amcanion cyffredinol y Fframwaith yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed yng Nghymru i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid drwy:

- Weithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar gyflenwi er mwyn cyflawni canlyniadau cyffredin;
- gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso cadarn, a ategir gan sylfaen dystiolaeth gref.

Defnyddir pum canlyniad strategol i ddisgrifio'r weledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru:

- Mae gan Gymru anifeiliaid iach a chynhyrchiol;
- Mae gan anifeiliaid yng Nghymru ansawdd bywyd da;
- Mae gan bobl ffydd a hyder yn y ffordd y cynhyrchir bwyd ac yn y ffordd y diogelir iechyd y cyhoedd;
- Mae gan Gymru economi wledig ffyniannus;
- Mae gan Gymru amgylchedd o ansawdd uchel.

Rôl

Mae'r Grŵp a benodwyd gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ym mis Mehefin 2014 yn chwarae rôl gynghorol ac ymgynghorol yn hytrach nag yn gwneud penderfyniadau. Nid oes gan y Grŵp yr ymreolaeth i wneud penderfyniadau ar sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu, i gadarnhau Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chyrrff cyflenwi, i gymeradwyo cynlluniau wrth gefn nac i gymeradwyo cyflwyniadau. Bydd aelodau yn gwasanaethu fel unigolion ac ni fyddant yn cynrychioli unrhyw sefydliadau. Ni fydd hawl gan aelodau enwebu rhywun arall i fod yn bresennol yn eu lle.

Mae'r Grŵp yn cynnwys arbenigwyr sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar bob agwedd ar faterion iechyd a lles anifeiliaid.

Mae aelodau'r panel a benodir yn dod o bob math o gefndiroedd. Maent wedi eu penodi er mwyn sicrhau bod barn ceidwaid da byw, perchnogion anifeiliaid a'r byd milfeddygol yn cael ei hadlewyrchu yn y fframwaith.

Mae cyfrifoldebau'r Grŵp yn cynnwys:

- codi ac ystyried materion newydd a all, o bosibl, effeithio ar gyflawni'r canlyniadau strategol o fewn Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru;

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

- ystyried sut i gyflawni deilliannau a blaenoriaethau, sy'n bwysig iawn yn yr hinsawdd bresennol, ac a fydd hefyd yn bwysig yn y dyfodol, o ystyried y pwysau ar adnoddau;
- herio polisïau newydd a pholisïau posibl;
- cysylltu â'r diwydiant a chael gwybodaeth ganddo i hysbysu ein penderfyniadau yn well;
- sicrhau adolygiadau parhaus o gynnydd a nodi, cyflawni a, lle y bo angen, hwyluso gwelliannau a phrosiectau;
- hwyluso a symleiddio'r broses o gyfleu negeseuon allweddol a'r llif gwybodaeth fel rhan o strategaeth gyfathrebu ehangach;
- sefydlu a chynnal cysylltiadau â sefydliadau yn y diwydiant a grwpiau sy'n eu cynrychioli, yr economi amaethyddol a gwledig ehangach yn ogystal â meysydd megis iechyd pobl, addysg, trechu tlodi etc.
- bod yn gynrychiolwyr ar ran y Grŵp – gall aelodau fod yn llefaryddion ar faterion yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid.

Blaenoriaethau'r Grŵp yw:

- Cynllunio ym maes Iechyd Anifeiliaid
- Ymwrthedd i Gyffuriau Lladd Llyngyr
- Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd
- Bioddiogelwch
- Dolur Rhydd Feirysol Buchol
- Ymgysylltu â'r Sector Lles (Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes)
- Mwy o Gydweithio a Gweithio mewn Partneriaeth
- Y Clafr
- Cloffni mewn Defaid

Cefnogaeth

Darperir Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn Llywodraeth Cymru.

Adrodd

Bydd Cynllun Cyflawni blynyddol yn cael ei lunio a'i gyhoeddi a fydd yn nodi blaenoriaethau'r Grŵp a'i waith yn y dyfodol.

Mae cofnodion y cyfarfodydd yn ddogfennau cyhoeddus ac maent ar gael ar y Rhyngwyd yn:

www.wales.gov.uk/ahwstrategy

Monitro a Gwerthuso

Bydd y gwaith o weithredu'r Fframwaith yn cael ei fesur drwy amrywiaeth o ddulliau er mwyn sicrhau bod atebolrwydd clir a dull effeithiol ar waith i fesur cynnydd a chyflenwi.

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweled yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweled. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Christianne Glossop, y Prif Swyddog Milfeddygol, a Paul Critchley, Pennaeth y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, y Tîm Cyllid a Strategaeth, gyda Richard Bowen, Cyfarwyddwr Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yn aelod annibynnol o'r panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar "restr hir", cyn iddo gael ei anfon ymlaen i'w ystyried gan y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer. Mewn sefyllfa o'r fath, dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweled. Ond os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweled a'ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol hanfodol y swydd, yna cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweled.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweled ac na fydd dyddiad y cyfweled eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweled. Os na allwch ddod i'r cyfweled ar y diwrnod hwnnw, gwnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Bydd y system Penodi yn anfon e-bost atoch i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweled ai peidio. Ein nod yw cynnal y cyfweledau yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweled, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y rôl.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n 'addas i'w penodi' yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd cyfrifol y Cabinet, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai Ysgrifennydd y Cabinet ddewis cyfarfod ag un neu fwy o'r ymgeiswyr hynny cyn penderfynu.

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a fydd hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff eich penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweled, bydd Llywodraeth Cymru yn eich hysbysu. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

wneud cais am swydd a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os ydych am gwyno am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru / 03000 255454.